**Dyddiad:** Dydd Iau Mai 11eg

**Amser:** 2pm - 4pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl**: CHWECHED ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS: ATGYFNERTHU SAFONAU

***Diben***

1. Ystyried yr Adroddiad a'i oblygiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

***Gweithredu***

2. Cytuno ar ymateb y Pwyllgor i'r argymhellion sy'n dod o fewn cwmpas ei gylch gwaith. Gweler Atodiad 2.

***Cefndir***

3. Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ym mis Hydref 1994 yn wyneb anesmwythyd y cyhoedd ynghylch safonau mewn bywyd cyhoeddus. Sefydlwyd y Pwyllgor cyn datganoli, wrth gwrs, ond y farn gyffredinol yw fod ei gylch gwaith (gweler isod) yn ddigon eang i gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler yr adrannau a danlinellwyd). Dyma'r cylch gwaith :

4. Archwilio pryderon presennol ynghylch safonau ymddygiad pawb sydd mewn swydd gyhoeddus, gan gynnwys trefniadau'n ymwneud â gweithgareddau ariannol a masnachol, a gwneud argymhellion ynghylch unrhyw beth y gall fod angen ei newid yn y trefniadau presennol er mwyn sicrhau'r safonau priodoldeb uchaf mewn bywyd cyhoeddus. At y dibenion hyn, dylai swydd gyhoeddus gynnwys y canlynol: Gweinidogion, gweision sifil a'u hymgynghorwyr; Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Deyrnas Unedig o Senedd Ewrop; Aelodau ac uwch swyddogion pob corff cyhoeddus anadrannol a chyrff yr NHS; deiliaid swyddi anweinidogol; aelodau ac uwch swyddogion eraill mewn cyrff eraill sy'n cyflawni swyddogaethau a gyllidir trwy arian cyhoeddus; ac aelodau etholedig ac uwch swyddogion awdurdodau lleol.

5. Ar 12 Tachwedd 1997 ymestynnodd y Prif Weinidog presennol y cylch gwaith i gynnwys arolygu materion mewn perthynas ag ariannu pleidiau gwleidyddol, a gwneud argymhellion ynghylch unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol.

6. Cadeiriwyd y Pwyllgor yn wreiddiol gan y Gwir Anrh. Arglwydd Nolan, ac edrychodd ar 3 maes yn ystod ei ymchwiliad cyntaf – arian am gwestiynau; honiadau bod cyn-Weinidogion yn cael swyddi â chwmnïau y bu ganddynt gysylltiadau â hwy tra mewn swydd gyhoeddus; ac argraff bod ystyriaethau gwleidyddiaeth bleidiol yn cael gormod o ddylanwad ar benodiadau cyhoeddus. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad cyntaf "Committee on Standards in Public Life, First Report" ym mis Mai 1995.

7. Mae ymchwiliad diweddaraf y Pwyllgor, a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Neill o Bladen, wedi edrych ar y modd y rhoddwyd argymhellion yr Adroddiad cyntaf ar waith yn ogystal ag ar faterion eraill, o dan gylch gwaith eang y Pwyllgor (yn gryno, statws ymgynghorwyr arbennig a'r modd y cânt eu rheoleiddio; noddi gweithgareddau'r llywodraeth; lobïo Gweinidogion a gweision sifil). Cynhyrchwyd y Chweched Adroddiad yn sgil yr arolwg, a'i gyhoeddi ym mis Ionawr.

8. Mae’r Adroddiad yn ymdrin â materion yn ymwneud ag Aelodau Seneddol, Gweinidogion, Gweision Sifil, Ymgynghorwyr Arbennig, Lobïo a Grwpiau Pob Plaid, Noddi Gweithgareddau’r Llywodraeth, Penodiadau Cyhoeddus a Chymesuredd a Thasgluoedd. Gellir gweld yr Adroddiad llawn, a mwy o wybodaeth am y Pwyllgor, trwy glicio ar http://www.public-standards.gov.uk/.

***Goblygiadau i’r Cynulliad***

9. Yn Atodiad 1 ceir crynodeb o argymhellion yr Adroddiad a sylwadau a all fod yn berthnasol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae llawer o’r rhain y tu allan i gwmpas gwaith y Pwyllgor, ac felly mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd o ddiddordeb uniongyrchol:

10. Er nad yw’r adroddiad yn cyfeirio’n benodol at y cyrff sydd wedi’u datganoli, mae iddo gymysgedd o oblygiadau ar eu cyfer, yn arbennig:

- nid yw’r argymhellion sy’n uniongyrchol berthnasol i Aelodau Seneddol o reidrwydd yn berthnasol i Aelodau’r Cynulliad hefyd; ac

- mae’r adroddiad yn cynnwys argymhellion ar God y Gweinidogion (sef sail Cod Ymddygiad Ysgrifenyddion y Cynulliad).

11. Mae’r argymhellion sy’n arbennig o berthnasol i’r Pwyllgor Safonau’n ymwneud ag ymchwiliad mwy annibynnol i gamymddwyn gan Aelodau unigol; llwgrwobrwyo; eiriolaeth; a chofrestr o grwpiau pob plaid. Ceir manylion y rhain yn Atodiad 2 ynghyd â sylwadau’r Ysgrifenyddiaeth.

12. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi’r argymhellion sy’n deillio o bennod 4 yr adroddiad a allai fod â goblygiadau ar gyfer Cod Ymddygiad Ysgrifenyddion y Cynulliad. Bydd y Swyddfa Weithredol yn ystyried y rhain i ddechrau.

13. Ni wyddys eto pryd y bydd Llywodraeth Whitehall yn rhoi ei hymateb i’r Chweched Adroddiad (er bod cydweithwyr wedi awgrymu y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ddiwedd y gwanwyn/ddechrau’r haf). Yn amlwg, bydd y Llywodraeth yng Nghymru a Phwyllgor Safonau’r Cynulliad yn dymuno ystyried yn ofalus unrhyw fesurau sy’n codi neu atgyfnerthu safonau mewn swyddi cyhoeddus a gwasanaeth cyhoeddus.

***Casgliadau***

14. Bydd y Swyddfa Weithredol yn ystyried agweddau’n ymwneud â’r Gwasanaeth Sifil a’r Cabinet; a Swyddfa’r Llywydd yn ystyried materion yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau’r Cynulliad.

15. Mae’r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu rôl Swyddfa’r Llywydd (a’r Pwyllgor Safonau) yn briodol. Bydd yn galluogi’r Swyddfa Weithredol i roi sylwadau ar faterion y mae’n bennaf gyfrifol amdanynt (h.y. ymddygiad Ysgrifenyddion a gweision sifil y Cynulliad) a Swyddfa’r Llywydd i roi sylwadau ar faterion y mae hithau’n bennaf gyfrifol amdanynt (h.y. ymddygiad Aelodau’r Cynulliad).

16. Yn amodol ar farn y Pwyllgor, cynigir y bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn paratoi ymateb drafft llawn ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf, gan ymgynghori â’r Swyddfa Weithredol.

**Y Swyddfa Gyflwyno**

**Mai 2000**

**Atodiad 1**
**CHWECHED ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS: ATGYFNERTHU SAFONAU – RHESTR O ARGYMHELLION A SYLWADAU**

**(Dynodir Argymhellion ag "A" a Sylwadau ag "S")**

**Pennod 3 : Aelodau Seneddol**

| **Rhif** | **Eitem** |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Llywodraeth gyflwyno'i deddfwriaeth arfaethedig ar gyfraith droseddol llwgrwobrwyaeth cyn gynted ag y bo modd er mwyn dileu unrhyw amwysedd o ran cwmpas y drosedd statudol o lwgrwobrwyaeth a'i gwneud yn glir bod aelodau dau D'r Senedd, tra'n gweithredu yn rhinwedd eu swyddi fel aelodau, ac unrhyw un sy'n llwgrwobrwyo aelod o unrhyw un o Dai'r Senedd yn dod o fewn ei chwmpas. |
| **A2** | Ble y gwneir cwyn i Gomisiynydd Safonau'r Senedd yn honni bod AS wedi ymddwyn yn droseddol ac nad yw'r honiad yn faleisus na'n wamal, yna dylai'r Comisiynydd Seneddol roi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau gan argymell y dylid cyfeirio'r mater at yr heddlu i'w ymchwilio ymhellach. |
| **A3** | **Trefniadau 'prawf' mewn achosion difrifol sy'n cael eu herio**<br><br>1. Ble<br><br>a. mae'r Comisiynydd Seneddol yn cael bod achos *prima facie* yn erbyn AS a gyhuddir, ble y byddai'r ffeithiau honedig gyfystyr â chamymddwyn difrifol pe baent yn wir, ond<br><br>b. bod yr AS a gyhuddir yn herio'r ffeithiau honedig,<br><br>dylai'r Comisiynydd Seneddol roi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau gan argymell y dylid cyfeirio'r achos at dribiwnlys disgyblu a fydd yn cynnwys cadeirydd cyfreithiol yn eistedd gydag un ai ddau neu bedwar AS a ddylai fod yn uchel iawn eu safle.<br><br>2. Cyn gwneud penderfyniad p'run a ddylid derbyn argymhelliad y Comisiynydd Seneddol, dylai'r Pwyllgor Safonau a Breintiau roi cyfle i'r AS a gyhuddir wneud cyflwyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw.<br><br>3. Os derbynnir argymhelliad y Comisiynydd Seneddol, dylid rhoi cymorth ariannol i'r AS a gyhuddir er mwyn iddo ef neu hi allu talu am gynrychiolaeth gyfreithiol yng ngwrandawiadau'r tribiwnlys.<br><br>4. Dylai'r tribiwnlys gael ei lywodraethu gan weithdrefnau sy'n bodloni'r *"safonau tegwch isaf"*, fel y'u diffiniwyd gan Bwyllgor Nicholls.<br><br>5. Dylai'r tribiwnlys geisio'r ffeithiau a phenderfynu, ar sail y ffeithiau a ddarganfyddir, a brofwyd yr honiadau yn erbyn yr AS a gyhuddwyd.<br><br>6. Dylai'r tribiwnlys roi adroddiad ar ei gasgliadau i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau a, chan gymryd na chyflwynir apêl, dylai'r Pwyllgor ystyried pa gosb (os o gwbl) y dylid ei hargymell i D'r Cyffredin. |

| | |
|---|---|
| **A4.** | **Trefniadau apêl mewn achosion difrifol sy'n cael eu herio**<br><br>1. Dylai AS y dyfernir yn ei erbyn yn y tribiwnlys cyntaf fod â hawl i apelio, a hawl i gymorth ariannol i fynd â'r apêl honno yn ei blaen.<br><br>2. Dylai tribiwnlys apeliadau *ad hoc* – barnwr apeliadau uwch wedi ymddeol ar ei ben ei hun o bosibl - wrando ar yr apêl.<br><br>3. Os gwrthodir yr apêl, dylai'r Pwyllgor roi adroddiad o ganlyniad yr apêl i D'r Cyffredin ynghyd ag unrhyw argymhelliad ar gyfer y gosb. |
| **A5** | **Trefniadau 'prawf' ac apêl mewn achosion eraill sy'n cael eu herio**<br><br>1. Mewn achosion nad oes angen eu cyfeirio at y tribiwnlys llawn, ym marn y Comisiynydd Seneddol, dylai'r Comisiynydd Seneddol wneud argymhelliad i'r perwyl hwnnw i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau. Dylai'r Pwyllgor benderfynu a ddylid cadarnhau argymhelliad y Comisiynydd ar sail adroddiad y Comisiynydd a chyflwyniadau'r AS a gyhuddir (os oes rhai).<br><br>2. Yn yr achosion hynny sy'n aros gyda'r Comisiynydd Seneddol, dylai'r Comisiynydd ymchwilio i'r gyn a phenderfynu, ar sail y ffeithiau a ddarganfyddir, a ddylid cadarnhau neu wrthod y gyn. Dylai'r Comisiynydd roi adroddiad ar ei benderfyniad i'r Pwyllgor a dylai'r Pwyllgor, yn ei dro, benderfynu a ddylid mabwysiadu adroddiad y Comisiynydd ai peidio, a pha gosb (os o gwbl) ddylid ei hargymell i'r T.<br><br>3. Mewn achosion ble mae AS a gyhuddir yn herio darganfyddiadau neu gasgliadau'r Comisiynydd, dylai'r AS hwnnw allu apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd. Un ai'r Pwyllgor ei hun neu unrhyw gorff apeliadau *ad hoc* y mae'n penderfynu ei gynnull ddylai wrando apêl o'r fath. |
| **A6** | **Trefniadau disgyblu mewn achosion heb eu herio**<br><br>Mewn achosion heb eu herio, boed yn rhai difrifol neu peidio, dylai'r Comisiynydd Seneddol roi adroddiad o'r ffeithiau (diddadl) a'r casgliadau'n seiliedig ar y ffeithiau hynny i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau, yn unol â'r arferion presennol. Os bydd y Pwyllgor yn cadarnhau'r adroddiad, dylai argymell i D'r Cyffredin pa gosb (os o gwbl) ddylid ei rhoi. |
| **A7** | Dylid cynnal trefniadau disgyblu T'r Cyffredin yn gyhoeddus ond ni ddylid eu darlledu. Nid yw'r argymhelliad hwn o ran cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus yn cynnwys trafodaethau preifat y Pwyllgor Safonau a Breintiau na thrafodaethau unrhyw dribiwnlys disgyblu neu apeliadau. Dylai'r rhain aros yn breifat. |
| **A8** | Dylai T'r Cyffredin gymryd camau mewn perthynas â'r Pwyllgor Safonau a Breintiau gyda'r bwriad o:<br><br>a. sicrhau bod cyfran sylweddol o'i aelodau yn ASau uwch, ac o<br><br>b. eithrio'r Pwyllgor o'r arfer y dylai'r cadeirydd ddod o blith meinciau'r Llywodraeth. |
| **A9** | Dylid cadw'r gwaharddiad ar dalu am eiriolaeth. |

| | |
|---|---|
| **A10** | Dylid diwygio'r canllawiau'n ymwneud â'r gwaharddiad ar dalu am eiriolaeth, a nodir yn y *Guide to the Rules Relating to Conduct of Members*, fel bod modd i AS sydd â budd personol gychwyn achos sy'n gysylltiedig mewn ffordd gyffredinol (ac nid yn unig) â'r budd hwnnw, yn amodol ar y mesurau diogelwch canlynol:<br>• gwaherddir yr AS rhag cael ei dalu i eiriol ar ran y budd hwnnw;<br>• rhaid iddo ef neu hi gofrestru a datgan y budd yn unol â'r canllawiau;<br>• rhaid iddo ef neu hi ddatgan budd ar Bapur y Drefn (neu'r Papur Hysbysu) trwy ddefnyddio symbol a gytunwyd wrth gychwyn dadl. |

***Pennod 4 : Gweinidogion***

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| **A11** | Dylid diwygio paragraff 123 yng Nghod y Gweinidogion er mwyn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i Weinidog ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn am unrhyw benderfyniad, ar ôl cael cyngor gan ei (H)ysgrifennydd Parhaol ynghylch gwrthdaro posibl rhwng buddiannau. |
| **A12** | Ni ddylid sefydlu unrhyw swydd newydd ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymhlith gweinidogion. |
| **A13** | Dylid ailddrafftio tair brawddeg olaf adran 1 Cod y Gweinidogion er mwyn egluro rôl y Prif Weinidog. Mater i'r Prif Weinidog fydd penderfynu ar y geiriad terfynol ond rydym yn awgrymu'r canlynol:<br>Mater i Weinidogion unigol fydd barnu ar y ffordd orau o ymddwyn er mwyn cynnal y safonau uchaf posibl. Hwy sy'n gyfrifol am gyfiawnhau eu hymddygiad i'r Senedd a chadw'i hyder. Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol o hyd am farnu yn y pen draw beth yw gofynion y Cod a beth fydd canlyniadau priodol ei dorri. |
| **A14** | Dylid gwella'r modd y cyflwynir adran 1 Cod y Gweinidogion i adlewyrchu pa mor bwysig ydyw fel datganiad o'r egwyddorion moesol sy'n llywio ymddygiad gweinidogion. Yn arbennig, dylid gwahaniaethu'n eglur rhwng y tair brawddeg olaf, wedi'u hailddrafftio fel a awgrymir uchod, a gweddill y testun. |

**Pennod 5 :Gweision Sifil**

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| **A15** | Dylai penaethiaid proffesiwn a phenaethiaid adrannau parhaol, ar y cyd â'r Ganolfan Astudiaethau Rheolaeth a Pholisi, sicrhau y cynigir cyrsiau hyfforddi a chyflwyno i'r rhai hynny a benodir ar secondiad neu gontractau cyfnod byr i swyddi rheoli canol neu lefelau uwch y gwasanaeth sifil ble yr ystyrir materion moesol o fewn y sector cyhoeddus. |
| **A16** | Mae angen gweithdrefnau pellach i archwilio'r trefniadau ar gyfer dilysu perfformiad penaethiaid adrannau parhaol ac asiantaethau o'i gymharu â'u hamcanion personol ond dylid gwneud hyn mewn ffordd sy'n caniatáu peth dilysu annibynnol rhag tanseilio amhleidioldeb gwleidyddol. |

| | |
|---|---|
| **A17** | Dylid paratoi amserlen cyn gynted ag y bo modd ar gyfer cyflawni ymrwymiad y Llwyodraeth i gyflwyno Deddf y Gwasanaeth Sifil. Yn arbennig, dylid pennu dyddiad targed ar gyfer y broses o ymgynghori ar gwmpas Deddf o'r fath. |

**Pennod 6 : Ymgynghorwyr Arbennig**

| **Rhif** | **Eitem** |
|---|---|
| **A18** | Dylid diwygio Cod y Gweinidogion i adlewyrchu'r ffaith y gellid penodi mwy na 2 ymgynghorydd arbennig fesul Gweinidog Cabinet mewn rhai amgylchiadau penodol. Fe allai'r Prif Weinidog ddymuno nodi yn y Cod y meini prawf y dylid eu bodloni cyn penodi mwy na'r ffigwr hwn. |
| **A19** | Dylai Deddf arfaethedig y Gwasanaeth Sifil gynnwys darpariaeth yn cyfyngu ar gyfanswm yr ymgynghorwyr arbennig y gellir eu penodi o fewn y Llywodraeth. Dylid mynnu bod yn rhaid i ddau D'r Senedd benderfynu o blaid cyn y gellir penodi mwy na'r ffigwr hwnnw. |
| **A20** | Tra'n disgwyl i Ddeddf y Gwasanaeth Sifil gael ei chyhoeddi, dylai'r Llywodraeth gyflwyno terfyn ar gyfanswm yr ymgynghorwyr arbennig y gellir eu penodi o fewn y Llywodraeth, i'w drafod yn nau D'r Senedd. |
| **A21** | Os cynyddir nifer yr ymgynghorwyr arbennig â grymoedd gweithredol, dylai'r Senedd ddilyn yr un broses archwilio ag wrth gynyddu cyfanswm yr ymgynghorwyr arbennig, fel a nodir yn argymhellion A19 ac A20 uchod. |
| **A22** | Dylid llunio cod ymddygiad ar wahân ar gyfer ymgynghorwyr arbennig. Dylai cod yr ymgynghorwyr arbennig:<br><br>a. atgyfnerthu elfennau priodol Cod y Gwasanaeth Sifil, y Contract Model a pharagraff 56 Cod y Gweinidogion, sy'n nodi'r ddyletswydd i gynnal amhleidioldeb gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil a dyletswyddau eraill;<br><br>b. cynnwys adran ar gysylltiadau uniongyrchol yr ymgynghorwyr arbennig yn y cyfryngau, gan nodi'n eglur beth yw natur y rôl a chwaraeant mewn perthynas â gwaith staff gwybodaeth y Gwasanaeth Sifil ac yn arbennig rôl pennaeth yr adran wybodaeth, fel a nodir yn y *Guidance on the Work of the Government Information Service* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1997;<br><br>c. cael ei gorfodi gan y penaethiaid adrannau parhaol. |
| **A23** | Dylai'r Llywodraeth gynnwys cymal yng nghontract cyflogaeth pob ymgynghorydd arbennig yn y dyfodol, yn mynnu eu bod yn glynu at delerau cod yr ymgynghorwyr arbennig. Ni ddylai'r Contract Model na Chod y Gwasanaeth Sifil fod yn berthnasol iddynt. Dylai'r Llywodraeth hefyd sicrhau bod yr ymgynghorwyr arbennig presennol yn glynu at god yr ymgynghorwyr arbennig. |
| **A24** | Dylid cynnwys cod yr ymgynghorwyr arbennig y Neddf arfaethedig y Gwasanaeth Sifil. |
| **A25** | Tra'n disgwyl i Ddeddf y Gwasanaeth Sifil gael ei chyhoeddi, dylai'r Llywodraeth gyflwyno copi drafft o'r cod arfaethedig i'w drafod yn nau D'r Senedd. |

**Pennod 7 : Lobïo a Grwpiau Pob Plaid**

| **Rhif** | **Eitem** |
|---|---|
| **A26** | Ni ddylid sefydlu unrhyw system statudol na gorfodol ar gyfer rheoleiddio lobïwyr. Croesewir y camau presennol i gryfhau trefn lobïwyr i'w rheoleiddio'u hunain. |

| | |
|---|---|
| **A27** | Ar gyfer **Gweinidogion**, dylid cofnodi ffeithiau sylfaenol ynghylch cyfarfodydd swyddogol â diddordebau allanol (gan gynnwys y dyddiad a'r amser, y bobl a fydd yn y cyfarfod a'r pwnc cyffredinol dan sylw) yn nyddiadur eu swyddfa, a chadw hwnnw. Dylid ategu Cod y Gweinidogion yn unol â hyn. |
| **A28** | Ar gyfer **gweision sifil gan gynnwys ymgynghorwyr arbennig**, dylid cryfhau'r canllawiau presennol ar lobïo er mwyn sicrhau y cedwir copi o'r ffeithiau sylfaenol ynghylch unrhyw gyswllt â diddordebau allanol (gan gynnwys y dyddiad a'r amser, y bobl berthnasol a'r pwnc cyffredinol dan sylw) ble y bydd y bobl hynny'n ceisio dylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau. |
| **A29** | Dylai Swyddfa'r Cabinet gyhoeddi canllawiau ar ymgynghori, gyda'r nod o sicrhau y ceir ymgynghoriad o safon uchel a thryloyw yn gyson ar faterion a phenderfyniadau polisi. Gallai'r rhain fod ar ffurf Cod Ymgynghori a fyddai'n ceisio sicrhau bod adrannau'n dilyn yr egwyddorion a nodir yn nogfen bresennol Swyddfa'r Cabinet, *Best Practice in Written Consultation*. |
| **A30** | Dylid rhoi cofrestr o'r Grwpiau Seneddol Pob Plaid a'r Grwpiau Seneddol Cyswllt ar y Rhyngrwyd. Dylai'r ddau D gadw golwg ar fater rhoi hawl i'r cyhoedd weld gwybodaeth am Grwpiau Pob Plaid. |

### *Pennod 8 : Noddi Gweithgareddau'r Llywodraeth*

| **Rhif** | **Eitem** |
|---|---|
| **A31** | Dylid gwahardd noddi gweithgareddau'r Llywodraeth yn amodol ar weithredu argymhellion A32, A33, A34, A35 ac A36. |
| **A32** | Dylai Swyddfa'r Cabinet lunio cyfres o egwyddorion (yn seiliedig ar ganllawiau presennol Swyddfa'r Cabinet ond gan adlewyrchu argymhellion A33, A34, A35 ac A36) y dylai pob adran sy'n dymuno denu nawdd gan y sectorau preifat neu wirfoddol eu dilyn. Dylai pob un o'r adrannau hyn ymgorffori'r egwyddorion mewn dogfen ymarferol, fanylach sy'n briodol i'w hanghenion ei hun. |
| **A33** | Dylai egwyddorion Swyddfa'r Cabinet yn ymwneud â noddi nodi bod angen i'r adrannau eu bodloni'u hunain, cyn dechrau chwilio am nawdd, bod unrhyw nawdd yn debygol o ddod â budd sylweddol net i'r adran heb niweidio lles y cyhoedd. Yn arbennig, dylai adrannau edrych yn drylwyr:<br><br>a. a ddylid eithrio rhai gweithgareddau penodol o'r nawdd, ac<br><br>b. a ellid cymryd bod rhai mathau penodol o gwmnïau yn anaddas i'w hystyried fel noddwyr ar sail gwrthdaro posibl rhwng buddiannau neu gyswllt amhriodol. |
| **A34** | Dylai pob adran sy'n chwilio am nawdd bennu swyddog i fod yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn yr adran honno'n gyfarwydd â'r canllawiau perthnasol ar nawdd ac yn glynu atynt. Dylai'r swyddog gydlynu â swyddogion eraill o'r fath ar draws adrannau'r llywodraeth er mwyn sicrhau safonau uchel o ran priodoldeb yn y cyswllt â noddwyr. |
| **A35** | Dylid datgelu manylion y nawdd a rodda'r sectorau preifat a gwirfoddol i weithgareddau'r llywodraeth, gan gynnwys gwerth y nawdd a dderbyniwyd, yn adroddiadau blynyddol yr adrannau ac i'r cyhoedd pe derbynnir cais. Ni fyddai angen datgelu symiau unigol ar gyfer nawdd gwerth llai na £5,000. |
| **A36** | Wrth gofnodi ffigwr ar gyfer gwerth nawdd, dylid cofnodi gwerth y nawdd i adran y llywodraeth. Dylid nodi canllawiau ar y ffordd gywir o gofnodi nawdd ar wahân i arian fel atodiad ar ddiwedd egwyddorion Swyddfa'r Cabinet. |

### *Pennod 9 : Penodiadau Cyhoeddus a Chymesuredd*

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| **S1** | Croesawn gyhoeddiad y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus, y Fonesig Rennie Fritchie, ei bod yn bwriadu cynnal arolwg o'r ffordd y gweithredir y system haenau, ac edrychwn ymlaen at yr adroddiad ar ei darganfyddiadau a'i chasgliadau. |
| **S2** | Croesawn hefyd awgrym y Comisiynydd y bydd yn ystyried a fyddai'n briodol i gyflwyno categori arbennig o benodiadau, i'w dynodi'n swyddi 'arbenigwyr', gyda rheolau penodi gwahanol ar eu cyfer. |
| **A37** | Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd arolygu'r weithdrefn ar gyfer ailbenodi pobl i gyrff yr NHS gyda'r bwriad o:<br><br>a. ailgyflwyno system ble y gellir penodi rhai sy'n ailymgeisio am y tro cyntaf, ac y'u haseswyd fel bod yn cyflawni'u swydd yn foddhaol, heb eu cymharu ag ymgeisydd allanol;<br><br>b. sicrhau bod y rhai hynny sy'n ymgeisio i gael eu hailbenodi yn cael gwybodaeth lawn am hynt y broses ailbenodi ar bob cam; a<br><br>c. sicrhau y cychwynnir y broses ailbenodi ar yr adeg briodol ac y gwneir penderfyniad ynghylch ailbenodi ddigon o amser (2 fis, dyweder) cyn diwedd cyfnod y person dan sylw yn ei swydd. |
| **A38** | Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ailystyried y trefniadau penodi ar gyfer awdurdodau ac ymddiriedolaethau'r NHS, ar ôl cael cyngor y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus ac ar ôl i'r Comisiynydd archwilio system benodi'r NHS (gweler S3 isod), er mwyn sefydlu system lai canolog na'r system gofrestr bresennol os bydd hynny'n ymarferol. Bydd hyn yn amodol ar yr angen i gynnal safonau perfformiad a darpariaeth ar draws system yr NHS yn gyffredinol. |
| **S3** | Cefnogwn gyhoeddiad y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus ei bod yn bwriadu cynnal archwiliad o'r trefniadau penodi a ddefnyddir ar gyfer yr NHS ac edrychwn ymlaen at dderbyn yr adroddiad ar ei darganfyddiadau. |
| **S4** | Croesawn waith y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus ar ddatblygu mesurau i wella cydbwysedd yr aelodau ar fyrddau cyrff cyhoeddus ac edrychwn ymlaen at dderbyn yr adroddiad ar ei chasgliadau. Fel rhan o amcanion ei gwaith, fe'i gwahoddwn i ystyried:<br><br>• sut i wella amrywiaeth yr ymgeiswyr y penodir pobl i swyddi cyhoeddus o'u plith; a<br><br>• sut y gellir cysoni'r syniad o 'deilyngdod' gyda'r angen am gynrychiolaeth gytbwys, â chymwysterau priodol. |

***Pennod 10 : Tasgluoedd***

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| **A39** | Dylai Swyddfa'r Cabinet benderfynu a chytuno ar ddiffiniad o dasglu. Dylai elfennau allweddol y diffiniad hwn gynnwys y ffaith bod gan gorff o'r fath nifer sylweddol o aelodau o'r tu allan a'i fod yn gweithredu am ddim hwy na 2 flynedd. |
| **A40** | Gan ddefnyddio'r diffiniad y cytunir arno, dylai Swyddfa'r Cabinet gynnal arolwg i sefydlu faint o dasgluoedd sy'n bodoli, eu statws cyfredol a hyd eu hoes. |

| | |
|---|---|
| **A41** | Os daw i'r amlwg y bu rhai tasgluoedd yn bodoli am fwy na 2 flynedd, dylai Swyddfa'r Cabinet, ar y cyd â'r adrannau a'u comisiynodd, benderfynu a ddylid diddymu'r tasglu neu ei ailddosbarthu fel Corff Cyhoeddus Anadrannol ymgynghorol. |

## Atodiad 2

## CHWECHED ADRODDIAD Y PWYLLGOR AR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS: ATGYFNERTHU SAFONAU – ARGYMHELLION I'W HYSTYRIED GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

### Pennod 3: Aelodau Seneddol

| **Argymhelliad** | | **Sylwadau'r Ysgrifenyddiaeth** | **Ymateb Arfaethedig Swyddfa'r Llywydd** |
|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Llywodraeth gyflwyno'i deddfwriaeth arfaethedig ar gyfraith droseddol llwgrwobrwyaeth cyn gynted ag y bo modd er mwyn dileu unrhyw amwysedd o ran cwmpas y drosedd statudol o lwgrwobrwyaeth a'i gwneud yn glir bod aelodau dau D'r Senedd, tra'n gweithredu yn rhinwedd eu swyddi fel aelodau, ac unrhyw un sy'n llwgrwobrwyo aelod o unrhyw un o Dai'r Senedd yn dod o fewn ei chwmpas. | Paragraffau 3.8 – 3.11 yr Adroddiad<br><br>Dylai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gynnwys Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r rhai hynny sy'n ceisio llwgrwobrwyo Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n croesawu'r bwriad i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn egluro cymhwysiad llwgrwobrwyaeth fel trosedd statudol, ac yn gofyn i'w gwmpas gynnwys Aelodau'r Cynulliad. |
| **A2** | Ble y gwneir cwyn i Gomisiynydd Safonau'r Senedd yn honni bod AS wedi ymddwyn yn droseddol ac nad yw'r honiad yn faleisus na'n wamal, yna dylai'r Comisiynydd Seneddol roi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau gan argymell y dylid cyfeirio'r mater at yr heddlu i'w ymchwilio ymhellach. | Paragraffau 3.23 – 3.26 yr Adroddiad<br><br>Mae gan y Cynulliad ddarpariaeth o dan Reol Sefydlog 16.1(i) a Chod Safonau'r Aelodau | Rydym yn falch bod gan y Cynulliad ddarpariaethau tebyg eisoes. |
| **A3** | **Trefniadau 'prawf' mewn achosion difrifol sy'n cael eu herio**<br><br>1. Ble<br><br>a. mae'r Comisiynydd Seneddol yn cael bod achos *prima facie* yn erbyn AS a gyhuddir, ble y byddai'r ffeithiau honedig gyfystyr â chamymddwyn difrifol pe baent yn wir, ond<br><br>b. bod yr AS a gyhuddir yn herio'r ffeithiau honedig,<br><br>dylai'r Comisiynydd Seneddol roi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau gan argymell y dylid cyfeirio'r achos at dribiwnlys disgyblu a fydd yn cynnwys cadeirydd cyfreithiol yn eistedd gydag un ai ddau neu bedwar AS a ddylai fod yn uchel iawn eu safle. | Paragraffau 3.29 – 3.45 yr Adroddiad<br><br>Nid yw'r trefniadau presennol yn darparu ar gyfer cwynion o raddfeydd gwahanol nac ar gyfer gwrandawiad cymhleth. Mae'r argymhelliad hwn yn gysyniad newydd i'r Cynulliad a bydd yn gofyn am:<br><br>a. Ethol "Tribiwnlys Safonau" i gynnal gwrandawiad<br><br>b. Deddfwriaeth sylfaenol i roi grymoedd gorfodi ehangach i'r pwyllgor na'r rhai y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru (Buddiannau Aelodau) | Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n deall bod angen gweithdrefnau sy'n sicrhau bod Aelodau'n derbyn gwrandawiad teg ac agored, ac mae wedi sefydlu trefniadau i ddiwallu'r angen hwnnw. Mae'r Pwyllgor Safonau wrthi ar hyn o bryd yn arolygu'i drefniadau ei hun ar gyfer ymdrin â chwynion (sy'n cydnabod bod rhai gwahaniaethau statudol ac ymarferol yn bodoli yng Nghymru). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. Cyn gwneud penderfyniad p'run a ddylid derbyn argymhelliad y Comisiynydd Seneddol, dylai'r Pwyllgor Safonau a Breintiau roi cyfle i'r AS a gyhuddir wneud cyflwyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw.<br><br>3. Os derbynnir argymhelliad y Comisiynydd Seneddol, dylid rhoi cymorth ariannol i'r AS a gyhuddir er mwyn iddo ef neu hi allu talu am gynrychiolaeth gyfreithiol yng ngwrandawiadau'r tribiwnlys.<br><br>4. Dylai'r tribiwnlys gael ei lywodraethu gan weithdrefnau sy'n bodloni'r *"safonau tegwch isaf"*, fel y'u diffiniwyd gan Bwyllgor Nicholls.<br><br>5. Dylai'r tribiwnlys geisio'r ffeithiau a phenderfynu, ar sail y ffeithiau a ddarganfyddir, a brofwyd yr honiadau yn erbyn yr AS a gyhuddwyd.<br><br>6. Dylai'r tribiwnlys roi adroddiad ar ei gasgliadau i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau a, chan gymryd na chyflwynir apêl, dylai'r Pwyllgor ystyried pa gosb (os o gwbl) y dylid ei hargymell i D'r Cyffredin. | c. Cyllideb i ddarparu cymorth ariannol<br><br>Un pwynt arall: nid yw'r argymhelliad hwn yn ystyried gwahaniaeth barn rhwng yr Ymgynghorydd a'r Pwyllgor, h.y. beth os bydd y Pwyllgor yn dymuno cael tribiwnlys a'r Ymgynghorydd yn anghydweld.<br><br>Mae'r Ysgrifenyddiaeth o'r farn bod y trefniadau presennol yn addas ac nad oes angen y gweithdrefnau manwl a amlinellir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, awgryma'r Ysgrifenyddiaeth y dylai'r Ymgynghorydd gadw'r argymhelliad mewn cof wrth fireinio'r weithdrefn ddrafft a rhoi adroddiad yn y man. | |
| **A4.** | **Trefniadau apêl mewn achosion difrifol sy'n cael eu herio**<br><br>1. Dylai AS y dyfernir yn ei erbyn yn y tribiwnlys cyntaf fod â hawl i apelio, a hawl i gymorth ariannol i fynd â'r apêl honno yn ei blaen.<br><br>2. Dylai tribiwnlys apeliadau *ad hoc* – barnwr apeliadau uwch wedi ymddeol ar ei ben ei hun o bosibl - wrando ar yr apêl.<br><br>3. Os gwrthodir yr apêl, dylai'r Pwyllgor roi adroddiad o ganlyniad yr apêl i D'r Cyffredin ynghyd ag unrhyw argymhelliad ar gyfer y gosb. | Paragraffau 3.46 – 3.50 yr Adroddiad<br><br>Sylwadau fel yr uchod, a byddai goblygiadau ychwanegol o ran darparu cyllideb. | Gweler uchod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A5** | **Trefniadau 'prawf' ac apêl mewn achosion eraill sy'n cael eu herio**<br><br>1. Mewn achosion nad oes angen eu cyfeirio at y tribiwnlys llawn, ym marn y Comisiynydd Seneddol, dylai'r Comisiynydd Seneddol wneud argymhelliad i'r perwyl hwnnw i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau. Dylai'r Pwyllgor benderfynu a ddylid cadarnhau argymhelliad y Comisiynydd ar sail adroddiad y Comisiynydd a chyflwyniadau'r AS a gyhuddir (os oes rhai).<br><br>2. Yn yr achosion hynny sy'n aros gyda'r Comisiynydd Seneddol, dylai'r Comisiynydd ymchwilio i'r gyn a phenderfynu, ar sail y ffeithiau a ddarganfyddir, a ddylid cadarnhau neu wrthod y gyn. Dylai'r Comisiynydd roi adroddiad ar ei benderfyniad i'r Pwyllgor a dylai'r Pwyllgor, yn ei dro, benderfynu a ddylid mabwysiadu adroddiad y Comisiynydd ai peidio, a pha gosb (os o gwbl) ddylid ei hargymell i'r T.<br><br>3. Mewn achosion ble mae AS a gyhuddir yn herio darganfyddiadau neu gasgliadau'r Comisiynydd, dylai'r AS hwnnw allu apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd. Un ai'r Pwyllgor ei hun neu unrhyw gorff apeliadau *ad hoc* y mae'n penderfynu ei gynnull ddylai wrando apêl o'r fath. | Paragraffau 3.51 – 3.54 yr Adroddiad<br><br>Gweler y sylwadau ar A3.<br><br>Byddai'r Pwyllgor yn gwneud ei benderfyniad ar ôl derbyn adroddiad cyntaf yr Ymgynghorydd.<br><br>Nid oes gennym gam apêl wedi'i ddiffinio hyd yma er y bydd yr ymgynghorydd yn ystyried hyn fel rhan o'r arolwg ac yn rhoi adroddiad ar y mater. | Gweler uchod |
| **A6** | **Trefniadau disgyblu mewn achosion heb eu herio**<br><br>Mewn achosion heb eu herio, boed yn rhai difrifol neu peidio, dylai'r Comisiynydd Seneddol roi adroddiad o'r ffeithiau (diddadl) a'r casgliadau'n seiliedig ar y ffeithiau hynny i'r Pwyllgor Safonau a Breintiau, yn unol â'r arferion presennol. Os bydd y Pwyllgor yn cadarnhau'r adroddiad, dylai argymell i D'r Cyffredin pa gosb (os o gwbl) ddylid ei rhoi. | Paragraff 3.55<br><br>Gweler y sylwadau ar A3 o ran categoreiddio cwynion a grymoedd gorfodi. Gweler hefyd y sylwadau ar A5 o ran Rheol Sefydlog 16. | Gweler uchod |
| **A7** | Dylid cynnal trefniadau disgyblu T'r Cyffredin yn gyhoeddus ond ni ddylid eu darlledu. Nid yw'r argymhelliad hwn o ran cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus yn cynnwys trafodaethau preifat y Pwyllgor Safonau a Breintiau na thrafodaethau unrhyw dribiwnlys disgyblu neu apeliadau. Dylai'r rhain aros yn breifat. | Paragraffau 3.58 – 3.60<br><br>Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor Safonau'r Cynulliad yn gyhoeddus ac fe'u darlledir. Fodd bynnag, mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer ystyried cwynion yn breifat oni bai fod y Cynulliad yn penderfynu fel arall. Argymhelliad yr Ysgrifenyddiaeth yw y dylid ystyried y mater hwn fel rhan o arolwg yr Ymgynghorydd. | Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cydnabod yr angen i fod yn agored a hygyrch i'r cyhoedd. Cynhelir cyfarfodydd ei Bwyllgor Safonau yn gyhoeddus ac fe'u darlledir ac eithrio pan fyddant yn ystyried cwynion. Mae'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd wrthi'n ystyried ei drefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion; ystyrir yr argymhelliad hwn fel rhan o'r arolwg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A8** | Dylai T‘r Cyffredin gymryd camau mewn perthynas â’r Pwyllgor Safonau a Breintiau gyda’r bwriad o:<br><br>a. sicrhau bod cyfran sylweddol o’i aelodau yn ASau uwch, ac o<br><br>b. eithrio’r Pwyllgor o’r arfer y dylai’r cadeirydd ddod o blith meinciau’r Llywodraeth. | Paragraffau 3.73 – 3.76<br><br>Nid yw ystyr Aelod "uwch" yn eglur. Nid oes gan y Cynulliad gronfa mor fawr o Aelodau ac mae’n bosibl felly na all gyflawni’r meini prawf hyn. Ceir cydbwysedd yn y Pwyllgor o ran aelodau’r gwahanol bleidiau ac mae’r Cynulliad yn ethol y Cadeirydd sydd heb fod o’r blaid fwyaf. | Noda Cynulliad Cenedlaethol Cymru fwriad yr argymhelliad. Fodd bynnag, ni fyddai’n briodol nac yn ymarferol i’w gymhwyso yma gan mai sefydliad newydd yw’r Cynulliad. |
| **A9** | Dylid cadw’r gwaharddiad ar dalu am eiriolaeth. | Paragraffau 3.77 – 3.96<br><br>O dan Adran 72(4) Deddf Llywodraeth Cymru, rhaid i’r Rheolau Sefydlog (RhS 4.6) gynnwys darpariaeth yn gwahardd talu am eiriolaeth. | Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru’n croesawu’r argymhelliad hwn. |
| **A10** | Dylid diwygio’r canllawiau’n ymwneud â’r gwaharddiad ar dalu am eiriolaeth, a nodir yn y *Guide to the Rules Relating to Conduct of Members*, fel bod modd i AS sydd â budd personol gychwyn achos sy’n gysylltiedig mewn ffordd gyffredinol (ac nid yn unig) â’r budd hwnnw, yn amodol ar y mesurau diogelwch canlynol:<br><br>• gwaherddir yr AS rhag cael ei dalu i eiriol ar ran y budd hwnnw;<br><br>• rhaid iddo ef neu hi gofrestru a datgan y budd yn unol â’r canllawiau;<br><br>• rhaid iddo ef neu hi ddatgan budd ar Bapur y Drefn (neu’r Papur Hysbysu) trwy ddefnyddio symbol a gytunwyd wrth gychwyn dadl. | Paragraffau 3.77 – 3.96<br><br>Mae’r Ysgrifenyddiaeth wedi ceisio cyngor cyfreithiol ar y mater hwn. Gwaherddir y Cynulliad rhag mabwysiadu’r argymhelliad hwn gan baramedrau’r ddeddfwriaeth bresennol (gweler uchod). | Noda Cynulliad Cenedlaethol Cymru’r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, ni all fabwysiadu’r argymhelliad oherwydd ei baramedrau deddfwriaethol. |

### Chapter 7 : Lobïo a Grwpiau Pob Plaid

| **Number** | **Item** | **Secretariat Comments** | **Proposed OPO Response** |
|---|---|---|---|
| **A30** | Dylid rhoi cofrestr o’r Grwpiau Seneddol Pob Plaid a’r Grwpiau Seneddol Cyswllt ar y Rhyngrwyd. Dylai’r ddau D gadw golwg ar fater rhoi hawl i’r cyhoedd weld gwybodaeth am Grwpiau Pob Plaid. | Paragraffau 7.57 – 7.70<br><br>Ceir canllawiau, ond nid rhestr/cofrestr o’r fath ar hyn o bryd. Dylid ystyried a oes angen sefydlu un. | Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar grwpiau pob plaid ac mae wrthi’n ystyried a ddylid sefydlu cofrestr yng ngoleuni’r argymhellion. |